**HWB GWYDDORAU BYWYD CYMRU CYF**
DISGRIFIAD SWYDD A MANYLEB Y PERSON

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd** | Uwch Swyddog Ymchwil |
| **Lleoliad** | Caerdydd / Abertawe |
| **Yn atebol i'r** | Cyfarwyddwr Cyfathrebu |
| **Cyfradd** | £300 y dydd (Dim mwy na 3 diwrnod y mis) |
| **Cyfnod** | 12 mis (cyfle contractiwr neu secondiad) |

**PRIF BWRPAS Y SWYDD:**

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn sbarduno newid systematig a thrawsnewidiol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn creu dyfodol gwell i bobl Cymru. Ein rôl yw ysbrydoli arloesi a chydweithio rhwng diwydiant, iechyd a gofal cymdeithasol, a sefydliadau ymchwil er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl a theuluoedd ym mhob cwr o'r wlad.

I sbarduno newid, rydyn ni'n gweithio gyda GIG Cymru er mwyn deall problemau a nodi sut gall arloesi helpu i ddarparu gwell gofal. Rydyn ni'n helpu busnesau i greu atebion o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Rydyn ni'n creu cysylltiadau sy'n galluogi pobl a sefydliadau i weithio mewn partneriaeth.

Ein cenhadaeth yw cyflymu'r broses o ddatblygu a defnyddio atebion arloesol i sicrhau gwell iechyd a lles. Ein gweledigaeth yw sicrhau mai Cymru yw'r lle ar gyfer dewis ac arloesi yn y maes iechyd, gofal a lles.

Gan adrodd i'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu, bydd yr Uwch Swyddog Ymchwil yn arwain y gwaith o ddatblygu a chyflwyno papur meddwl ar rôl arloesi yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn ystyried meysydd a phynciau eraill ar gyfer papurau meddwl yn y dyfodol.

Bydd deiliad y swydd yn:

- Arwain yr ymchwil ar gyfer datblygu papur meddwl ar rôl arloesi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Cynnull a rhedeg uwch grŵp golygyddol a fydd yn cyfrannu at gynnwys a datblygiad y gwaith.
- Rheoli awdur dan gontract i weithio ar gamau'r papur hyd at gyflwyno'r drafft terfynol yn barod i'w gyhoeddi.
- Arwain y gwaith o gynllunio rhaglen o weithgareddau ar gyfer rhannu ac ymgorffori'r argymhellion a amlinellir yn y papur gyda chynulleidfaoedd allweddol.

Byddai'r rôl yn addas i unigolyn sydd â phrofiad uwch o'r GIG yng Nghymru a gwerthfawrogiad o gymhlethdodau newid ar raddfa fawr a mabwysiadu dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau. Byddai angen i'r unigolyn fod â rhwydwaith perthnasol i gefnogi'r gwaith, yn ogystal â chefndir mewn ymchwil academaidd a dylunio a darparu papurau meddwl ar gyfer cynulleidfaoedd annhechnegol.

Bydd llwyddiant y rôl hon yn cael ei asesu yn ôl cerrig milltir y prosiect.

**PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:**

- Datblygu grŵp ysgrifennu ac ymchwil i wneud y gwaith sydd ei angen i ddatblygu'r prosiect.
- Chwilio am lenyddiaeth ar rôl arloesi mewn iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n cynnwys modelau ar gyfer gwneud cais.
- Ehangu ac adolygu polisi Llywodraeth Cymru ar arloesi, yn enwedig o'r Adolygiad Seneddol a 'Cymru Iachach', er mwyn gosod yr ymchwil yng nghyd-destun Cymru.
- Cynnull ac arwain grŵp rhanddeiliaid o uwch arweinwyr ar draws y sector, a gaiff eu cyfweld i ddarparu mewnbwn a chyfeiriad ansoddol ar gyfer y prosiect.
- Datblygu a chytuno ar strwythur ar gyfer y papur meddwl, gan ofyn am fewnbwn a chytundeb gan bartneriaid allweddol yn y prosiect.
- Arwain a rhoi sylwadau ar bob drafft o'r papur, gan weithio gyda chymorth ysgrifennu dan gontract i sicrhau ei fod yn bodloni amlinelliad y strwythur ac yn adlewyrchu canfyddiadau ac arsylwadau'r ymchwil yn gywir.
- Cael ymrwymiad partneriaid allweddol i'r prosiect i sicrhau bod perchnogaeth a chefnogaeth eang i'r cyfraniad y gall y papur ei wneud i'r maes agenda allweddol hwn.
- Cymryd cyfrifoldeb am holl brosesau cymeradwyo'r papur - o ran methodoleg ymchwil, cyfeirio a chymeradwyaeth partner.
- Cyn cyhoeddi, ysgrifennu briffiau priodol, hyfforddiant a chynnwys cyfryngau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod meysydd allweddol y papur yn cael eu deall a bod modd manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i ymgysylltu a thrafod.
- Briffio staff ac aelodau'r Hwb Gwyddorau Bywyd, yn ogystal â Llywodraeth Cymru ac arweinwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar ganlyniadau'r prosiect a'r goblygiadau ar gyfer arloesi yng Nghymru.

- Argymell pynciau a meysydd pellach y gellid ymdrin â hwy mewn papurau meddwl yn y dyfodol, yn ystod y gwaith ac ar ôl ei gwblhau.

**MANYLEB Y PERSON**

**GWYBODAETH**

- Wedi'i addysgu at lefel gradd mewn disgyblaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd.
- Dealltwriaeth o ddulliau ac offer ymchwil gwyddor gymdeithasol.
- Gwybodaeth am bolisi ac arfer yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**PROFIAD**

- Gweithio mewn swyddogaeth ymchwil mewn cyd-destun arloesi iechyd.
- Profiad o weithio ar lefel uwch/weithredol mewn amgylchedd iechyd neu ofal cymdeithasol.
- Profiad o lywio newid diwylliannol ar lefel uwch.
- Profiad o ddatblygu (sy'n cynnwys cysyniad, comisiynu, ysgrifennu a chyflwyno) papurau meddwl ar gyfer cynulleidfaoedd annhechnegol.
- Profiad o fod yn 'llefarydd' ar gyfer mentrau a rhaglenni newid diwylliant.

**SGILIAU A GALLU**

- Mae'r swydd yn gofyn am ddealltwriaeth eang o ddulliau ymchwil a'r gallu i lunio barn am ansawdd a chywirdeb ymchwil trydydd parti, gan gynnwys ymchwil academaidd. Mae angen dealltwriaeth fanwl, gyfredol o'r pwnc ar gyfer maes eang hefyd.
- Sgiliau ymchwil cryf, gyda phrofiad o gynllunio a chyflwyno prosiectau ymchwil a gwerthuso perthnasol gan ddefnyddio amrywiaeth o fethodolegau.
- Sgiliau rheoli ac arwain cadarn i sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud mewn ffordd effeithlon ac y caiff terfynau amser eu bodloni.
- Sgiliau cyfathrebu a dylanwadu cryf ar gyfer cyflwyno ymchwil, cysyniadau a safbwyntiau dadleuol weithiau mewn ffordd hygyrch, ddiddorol a chydweithredol.

**GOFYNION ERAILL**

- Yn barod i weithio'n hyblyg i ddiwallu anghenion rhesymol y cwmni.
- Ymroddiad i weithio'n unol â gwerthoedd y cwmni.
- Gallu gweithredu ar ei liwt ei hun wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- Gallu rheoli llwyth gwaith amrywiol a llawn ar ei ben ei hun.
- Trwydded yrru ddilys a'i gludiant ei hun. Fodd bynnag, fel cyflogwr cyfle cyfartal, rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl sy'n gallu gwneud trefniadau teithio addas o fath arall.

Nid bwriad y disgrifiad swydd hwn yw cynnwys pob agwedd ar y swydd, ond yn hytrach rhoi diffiniad clir o bwrpas, cyfrifoldebau a dimensiynau sylfaenol y rôl.

Ar ben yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y disgrifiad swydd hwn, disgwylir i ddeiliad y swydd gyflawni pob tasg berthnasol a rhesymol arall y mae'r rheolwyr llinell yn ei rhoi iddo ef/hi.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf yn cydnabod ei bod yn bwysig datblygu a meithrin ei weithlu dwyieithog ac mae'n croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan unigolion sy'n dangos eu bod yn gallu gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae'n annog ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys heb ystyried rhyw, hil, anabledd, oed, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, statws priodasol neu feichiogrwydd a mamolaeth.

**LIFE SCIENCES HUB WALES LTD**
JOB DESCRIPTION &
PERSONAL SPECIFICATION

| | |
|---|---|
| **Job Title** | Senior Research Officer |
| **Location** | Cardiff / Swansea |
| **Responsible to** | Director of Communications |
| **Rate** | £300 per day (Max 3 days per month) |
| **Term** | 12 months (contractor or secondment opportunity) |

**MAIN PURPOSE OF ROLE:**

Life Sciences Hub Wales (LSHW) drives transformational, systematic change in the health and social care sectors to create a better future for the people of Wales. Our role is to inspire innovation and collaboration between industry, health and social care, and research organisations to make a positive difference to people and families across the nation.

As a catalyst for change, we work with NHS Wales to understand issues and identify how innovation can help deliver better care. We support businesses to create health and social care solutions. We create connections which enable people and organisations to work in partnership.

Our mission is to accelerate the development and adoption of innovate solutions for better health and wellbeing. Our vision is to make Wales the place for choice and health, care and wellbeing innovation.

Reporting to the Director of Communications, the Senior Research Officer will lead on the development and delivery of a thought paper on the role of innovation in the health and social care sector in Wales and consider other areas and subjects for future thought papers.

The post holder will:

- Lead the research for the development of a thought paper on the role of innovation in health and social care in Wales.

- Convene and run a senior editorial group that will contribute to the content and development of the work.

- Manage a contracted writer to work on the stages of the paper up to the delivery of the final draft for publication.

- Lead the design of a programme of activity for sharing and embedding the recommendations outlined in the paper with key audiences.

The role would suit an individual who has senior experience of the NHS in Wales and an appreciation of the complexities of large-scale change and adoption of new approaches to delivering services. The individual would need to have a relevant network to support the work, as well as a background in academic research and the design and delivery of thought-papers for non-technical audiences.

The success of this role will be assessed against project milestones.

**MAIN DUTIES & RESPONSIBILITIES:**

- Develop a writing and research group to undertake the work required for the development of the project.

- Undertake a literature search on the role of innovation in health and social care, which includes models for application.

- Scope and review Welsh Government policy on innovation, particularly from the Parliamentary Review and 'A Healthier Wales' in order to set the research within a Welsh context.

- Convene and lead a stakeholder group of senior leaders across the sector, who will be interviewed to provide qualitative input and direction for the project.

- Develop and agree a structure for the thought paper, seeking input and agreement from key partners in the project.

- Lead and provide input on each draft of the paper, working with contracted writing support to ensure that it meets the outline of the structure and accurately reflects the research findings and observations.

- Gain buy-in from key partners in the project to ensure that there is wide-spread ownership and support for the contribution that the paper can make to this key agenda area.

- Take responsibility for all approval processes for the paper – in terms of research methodology, referencing and partner endorsement.

- Ahead of publication, write appropriate briefings, training and social media content to ensure that the key areas of the paper are understood and opportunities for engagement and discussion are maximised.

- Brief LSHW staff and board members, as well as Welsh Government and health and social care leaders on the outcomes of the project and implications for innovation in Wales.

- During, and on completion, explore and recommend further subjects and areas that could be covered in future thought papers.

**PERSONAL SPECIFICATION**

**KNOWLEDGE**

- Educated to degree level in a health-related discipline.
- Understanding of social science research methods and tools.
- Knowledge of policy and practice within the health and social care sectors in Wales.

**EXPERIENCE**

- Working in a research function in a health innovation context.
- Proven experience working at a senior/executive level in a health or social care environment.
- Proven experience at driving forward cultural change at a senior level.
- Proven experience of the development (which includes concept, commissioning, writing and delivery) of thought papers for non-technical audiences.
- Proven experience of being a 'spokesperson' for culture change initiatives and programmes.

**SKILLS & ABILITIES**

- The post requires a broad understanding of research methods and the ability to make judgements about the quality and veracity of third-party research, including academic research. Detailed, up-to-date subject understanding covering a broad field is also required.
- Strong research skills, with experience of planning and delivering relevant research and evaluation projects using a range of methodologies.
- Strong management and leadership skills to ensure work is undertaken in an efficient way and deadlines are met.
- Strong communication and influencing skills for presenting research, concepts and sometimes contention positions in an accessible, engaging and collaborative way.

**OTHER REQUIREMENTS**

- Willingness to work flexibly to meet the reasonable needs of the company.
- Commitment to working in accordance with the company's values.
- Self-sufficient in use of information and communications technology.
- Ability to self-manage a full and varied workload.
- Valid driving license and own transport. However, as an equal opportunity employer, we welcome applications from those who are able to make alternative, suitable travel arrangements.

This role description is not intended to be exhaustive in every respect, but rather to clearly define the fundamental purpose, responsibilities and dimensions for the role.

In addition to the contents of this role description, the post holder will be expected to undertake all other reasonable and related tasks allocated by line management.

Life Sciences Hub Wales Ltd acknowledges the importance of developing and growing its bilingual workforce and welcomes applications for any post from candidates who demonstrate their capability to work in both English and Welsh.

Life Sciences Hub Wales is an equal opportunities employer and positively encourages applications from suitably qualified and eligible candidates regardless of sex, race, disability, age, sexual orientation, gender reassignment, religion or belief, marital status, or pregnancy and maternity.